Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Nia Jennings**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad i gyhoeddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 5 o blant o dan 12 oed. Mae'n byw ar gyrion Caernarfon, Gwynedd, ac mae ei horiau agor yn ystod yr wythnos yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y rhieni. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ond mae'n siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | **Digonol** |
| Gofal a Datblygiad | **Digonol** |
| Yr Amgylchedd | **Digonol** |
| Arwain a Rheoli | **Digonol** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod beth yw dewisiadau'r plant, mae'n hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn darparu gofal ymatebol. Darperir amgylchedd croesawgar, glân a diogel i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth reoli'r gwasanaeth ar y cyfan ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn bodloni'r safonau a chydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

### 2. Gwelliannau

Roedd y gwarchodwr plant wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a oedd yn codi o'i harolygiad diwethaf yn llwyddiannus.

Ers yr arolygiad hwn, mae wedi cadarnhau'r canlynol yn ysgrifenedig;

- Bydd cofnodion presenoldeb dyddiol mwy cywir yn cael eu cadw am y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- mae ffeiliau yn ymwneud â'i busnes yn ddiogel;
- mae'r ffurflen cofnodi damweiniau a oedd ar ôl wedi cael ei llofnodi gan y rhieni.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant bod angen gwneud gwelliant mewn perthynas â chadw cofnodion presenoldeb dyddiol y plant (rheoliad 30) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y sefyllfa ei hystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arwain a rheoli.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Digonol

### Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a gyda'i gilydd. Mae'r plant wedi setlo, yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn dysgu sgiliau addas drwy chwarae.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn barod i leisio barn a gwrandewir arnynt. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt a oeddent am wisgo top cynhesach gan ei fod ychydig yn oerach yn y prynhawn, dywedodd y plant nad oeddent am wneud hynny, a chafodd eu dewisiadau eu parchu. Roedd y plant yn dewis pa deganau roeddent am chwarae â nhw a gwnaethant chwerthin wrth iddynt chwarae â thegan mwnci. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi tynnu lluniau yn nhŷ'r gwarchodwr plant.

Roedd y plant yn teimlo'n fodlon ac yn ddiogel am fod ganddynt gydberthynas agos â'r gwarchodwr plant ac am eu bod yn gwneud ffrindiau â'i gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn sgwrsio â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant yn naturiol wrth iddynt chwarae. Pan ddaeth gŵr y gwarchodwr plant adref o'r gwaith, gwnaeth y plant ei gynnwys mewn trafodaeth roeddent yn ei chael, gan ddefnyddio ei enw cyntaf i siarad ag ef, a oedd yn dangos eu bod yn hapus yn ei gwmni. Roedd y plant yn deall y drefn ddyddiol, a phan ofynnwyd iddynt fynd i mewn i'r car er mwyn mynd â phlentyn i'r ysgol, gwnaethant hynny yn syth.

Roedd y plant yn dechrau deall rheolau ymddygiad;  roeddent yn rhannu adnoddau y rhan fwyaf o'r amser a phan oedd angen eu hatgoffa i gymryd eu tro, roeddent yn gwneud hynny yn hollol ddi-ffwdan. Roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a gyda'r warchodwraig gan fod digon o ddewis o weithgareddau i'w diddanu.

Roedd y plant yn edrych yn hapus wrth iddynt chwarae. Roedd teganau a chyfarpar ar gael yn hawdd yn y brif ystafell chwarae ac, yn yr awyr agored, roedd adnoddau fel teganau reidio, trampolîn a siglenni i'r plant ymarfer sgiliau mwy corfforol yn yr awyr iach. Gofynnodd y plant i'w gwarchodwr plant dynnu llun o uncorn ac ysbryd iddynt fel eu bod yn gallu lliwio ac addurno'r lluniau. Gwnaethant ddatgan bod yr uncorn yn mynd i gael ei liwio'n binc, ac roeddent yn edrych ymlaen at ludo'r llygaid gwgli (crefft) ar eu llun. Gwnaethant ganolbwyntio ar blethu gwellt pibellau lliw o amgylch ffon lolipop a gwnaethant wenu wrth iddynt ddweud yn falch wrthym eu bod wedi creu blodyn.

Roedd y plant yn dechrau gwneud rhai pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gallai'r plant hŷn ddefnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol ac roedd y plant iau yn pilio eu ffrwyth cyn ei fwyta. Roedd eu sgiliau iaith yn datblygu'n dda gan eu bod yn mwynhau siarad â'r gwarchodwr plant am wahanol bynciau wrth iddynt chwarae. Roedd y plant yn defnyddio eu dychymyg yn y gornel gartref a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau chwarae yn y pwll padlo yn ystod yr haf

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

a'u bod wedi mwynhau adeiladu tŷ allan o frigau yn y parc roeddent wedi ymweld ag ef yn ddiweddar.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Digonol

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel, yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau sy'n addas i'w hoedran a'u camau datblygu.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddi unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu plant. Roedd ganddi gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a oedd yn ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys os oedd angen. Roedd y gwarchodwr plant wedi cofnodi damwain ond nid oedd wedi gofyn i'r rhieni lofnodi'r cofnod damweiniau. Fodd bynnag, gwelwyd negeseuon testun a anfonwyd at y rhieni ar ddiwrnod y ddamwain a oedd yn dangos bod y rhieni wedi cael gwybod ar adeg y ddamwain.
Roedd y gwarchodwr plant yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn sâl ac roedd ganddi bolisi mewn perthynas â'r ffordd y rheolir hyn. Roedd angen diweddaru'r gweithdrefnau newid cewynnau fel eu bod yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y gwarchodwr plant yn darparu byrbrydau iach a dŵr i'r plant ac roedd y rhieni yn darparu bwyd i'r plant yn ystod prydau bwyd.

Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl da ac roedd ganddi gydberthynas dda â'r plant. Roedd yn canmol y plant am wneud rhywbeth yn dda ac yn eu hannog yn dyner i rannu neu ddangos cwrteisi. Gwelwyd a chlywyd iaith gadarnhaol a rhyngweithio cadarnhaol drwy gydol ein hymweliad ac roedd y plant a'r gwarchodwr plant yn barchus ac yn gwrtais tuag at ei gilydd.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym am y gweithgareddau roedd wedi'u cynllunio ar gyfer y plant, a oedd yn cynnwys prynhawniau i ymweld ag atyniadau lleol. Roedd ffotograffau a welwyd yn dangos bod y plant wedi bod am dro i'r traeth, parc a chanolfan blant. Er nad oedd y gwarchodwr plant yn cadw unrhyw gofnodion ysgrifenedig am gynnydd y plant, roedd yn deall datblygiad y plant a thrafododd sut y mae'n cefnogi'r plant i ddysgu gwahanol sgiliau. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd cyflwyno bwydydd solet yn neiet un o'r plant pan oedd yn barod gan ei fod yn helpu i ddatblygu ei leferydd a'i iaith. Roedd y gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion. Er enghraifft, gwnaeth eu cysuro pan oeddent wedi blino, a gwnaeth ymestyn iaith y plant drwy sgwrsio'n gyson yn iaith cartref y plant sef Cymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Digonol

### Crynodeb

Darperir amgylchedd croesawgar, glân a diogel i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn hybu sgiliau hunangymorth y plant. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i osod ardaloedd chwarae â ffocws a allai ymestyn profiadau dysgu'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel; roedd y drws ffrynt wedi'i gloi ac roedd yr ardd yn ddiogel. Roedd asesiadau risg ar gyfer y safle ac ar gyfer teithiau wedi cael eu cwblhau a'u hadolygu, a oedd yn golygu bod y gwarchodwr yn ystyried rheoli'r risg o niwed i'r plant ac yn dileu'r risg honno lle y bo'n bosibl. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn golygu y dylai'r plant allu gadael yr adeilad yn ddiogel os oedd angen.

Roedd y gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a golau i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Roedd digon o le i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gellid gosod yr ystafell chwarae gyda rhai ardaloedd chwarae dynodedig, a allai hyrwyddo dysgu'r plant. Er enghraifft, gellid gosod blociau adeiladu ac eitemau yn ymwneud ag adeiladu fel gweithgaredd a rhoi llyfrau darllen wrth ymyl soffa gyfforddus. Roedd y gwarchodwr plant wedi ystyried hyrwyddo annibyniaeth y plant, er enghraifft roedd toiled a basn golchi dwylo bellach ar y llawr gwaelod er mwyn eu cyrraedd yn hawdd. Fodd bynnag, gellid hyrwyddo annibyniaeth ymhellach drwy labeli mwy o ddroriau storio er mwyn i'r plant fynd atynt yn annibynnol.

Roedd y plant yn gallu defnyddio cyfleusterau ar y llawr gwaelod, ond roeddent yn treulio'u hamser yn bennaf yn chwarae'n greadigol o gwmpas y bwrdd yn y gegin ac yn chwarae yn yr ystafell chwarae ddynodedig. Roedd gormod o ddewis o deganau a oedd yn golygu bod y plant yn symud o un eitem i'r llall heb ymgysylltu'n llwyr â'r teganau unigol. Er bod y teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da, nid oedd llawer ohonynt wedi'u creu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddeunyddiau cynaliadwy – roedd y rhan fwyaf o'r teganau wedi'u creu o wahanol fathau o blastig. Roedd yr eitemau crefft wedi'u prynu mewn siop ac, er eu bod yn ddeniadol i'r plant, dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys eitemau mwy naturiol neu eitemau cartref yn eu chwarae a'u dysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth reoli'r gwasanaeth ac mae'n bwriadu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y plant a'r rhieni. Mae'n gwneud gwelliannau er budd y plant ac mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

### Ein canfyddiadau

At ei gilydd**,** mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi systemau ar waith i reoli'r gwasanaeth. Er enghraifft, roedd y datganiad o ddiben, at ei gilydd, yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Fodd bynnag, roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant ers arolygiad diwethaf y gwarchodwr plant, ac nid oedd y rhain wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben ac ni roddwyd gwybod i ni (AGC) ar yr adeg honno. Roedd gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r gofal mae'n ei ddarparu, ond nid oedd yn cadw cofnodion presenoldeb dyddiol cywir fel sy'n ofynnol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi gofyn i'r plant a'u rhieni gwblhau holiaduron yn flynyddol. Roedd yr ymatebion gan y rhieni yn dangos eu bod yn fodlon ar arferion y gwarchodwr plant a gwnaethant roi gradd 'rhagorol' i'r gwasanaeth. Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau adnoddau fel jig-sos, byd bach a gemau. Roedd y gwarchodwr plant wedi defnyddio cyllid a gafwyd er mwyn prynu ffens newydd yn yr ardal chwarae yn yr awyr agored ac roedd yn bwriadu prynu mwy o ffensys yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, nid oedd adroddiad blynyddol y gwarchodwr plant ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn nodi'n glir ei gwelliannau hyd yma, nac ychwaith y rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol na'r sylwadau a gafwyd gan y rhieni a'u plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan unrhyw un dros 16 oed ac sy'n byw yn ei chartref dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod ei thystysgrif yswiriant hi yn gyfredol. Roedd ganddi bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac roedd yn sicrhau bod gwybodaeth am anghenion a dewisiadau'r plentyn yn cael eu rhannu â hi cyn i'w plentyn ddechrau. Roedd y gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am amser eu plentyn yn ei gofal drwy anfon negeseuon testun dyddiol atynt, a rhoddwyd adborth ar lafar iddynt ar ddiwedd y dydd. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant am dro ac ar deithiau, a oedd yn eu galluogi i ddeall ac i deimlo eu bod yn rhan o'r gymuned ehangach.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Rheoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben er mwyn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i'r rhieni er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus am y gwasanaeth a ddarperir. Mae angen mynd i'r afael â hyn o hyd gan fod y plant bellach yn defnyddio ardaloedd ar y safle nad ydynt wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben.

Rheoliad 30 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – Mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant roi gwybod i ni am newidiadau sy'n effeithio ar ei gwasanaeth a'i chofrestriad. Mae angen mynd i'r afael â hyn o hyd gan na roddodd y gwarchodwr plant wybod i ni am newidiadau i'r safle o fewn 14 diwrnod i'r newid gael ei weithredu.

## 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r gwarchodwr plant ystyried y canlynol;

- Rhoi gweithdrefn newid cewynnau ar waith sy'n adlewyrchu canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli;
- gofyn i'r rhieni lofnodi'r cofnod damweiniau er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael gwybod amdano ar ddiwrnod y ddamwain;
- cadw amserlen wythnosol o weithgareddau a gynlluniwyd a chofnodi cynnydd y plant er mwyn cynllunio eu chwarae a'u dysgu yn y dyfodol;
- gosod yr ystafell chwarae gydag ardaloedd chwarae a dysgu dynodedig, a sicrhau bod eitemau naturiol, wedi'u hailgylchu ac eitemau cartref ar gael i'r plant er mwyn ymestyn eu profiadau chwarae a dysgu ymhellach;
- datblygu adroddiad ar ansawdd y gofal i gynnwys yr holl welliannau hyd yma a'r rhai hynny a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth hwn yn ddirybudd ar 23 Ionawr 2020 rhwng 11.55 a 14.25.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio dogfennaeth, gan gynnwys polisïau, y datganiad o ddiben, cofnodion y plant;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd;
- siarad â'r gwarchodwr plant a'r plant;
- archwilio'r ardaloedd a'r adnoddau a ddefnyddir gan y plant;
- rhoi adborth ar ein canfyddiadau i'r gwarchodwr plant ar ddiwedd yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Nia Jennings** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **5** |
| **Ystod oedran y plant** | **4 mis** – 12 oed |
| **Oriau agor** | **08.00 – 17.00 (hyblyg yn ystod yr wythnos)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Medi 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **23 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Nac ydy. **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn argymell body darparwr gwasanaeth yn ystyried** ***canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'.*** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/03/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi